



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2011 Rhif 555 (Cy.78)**

**2011 No. 555 (W.78)**

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,  
CYMRU**

**ENVIRONMENTAL  
PROTECTION, WALES**

**TRWYDEDU (MOROL), CYMRU**

**LICENSING (MARINE), WALES**

**LLYGREDD MOROL, CYMRU**

**MARINE POLLUTION,  
WALES**

Rheoliadau Trwyddedu Morol  
(Ffioedd am Geisiadau) (Cymru)  
2011

The Marine Licensing (Application  
Fees) (Wales) Regulations 2011

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r ffioedd sydd i'w codi ynglŷn â cheisiadau am drwyddedau morol y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod trwyddedu priodol mewn perthynas â hwy o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

These Regulations make provision in relation to the fees to be charged with respect to applications for marine licences in relation to which the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority under the Marine and Coastal Access Act 2009.

Mae rheoliad 3 yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn y Rheoliadau.

Regulation 3 defines certain terms used in the Regulations.

Mae rheoliad 4 yn darparu ar gyfer talu ac adennill ffioedd.

Regulation 4 provides for the payment and recovery of fees.

Mae rheoliadau 5 i 12 a'r Atodlen yn gwneud darpariaeth ar gyfer penderfynu'r ffioedd sydd i'w codi mewn perthynas â cheisiadau am drwyddedau morol o ddisgrifiad sy'n dod o fewn y rheoliadau hynny.

Regulations 5 to 12 and the Schedule make provision for determining the fees to be charged with respect to applications for marine licences of a description falling within those regulations.

Lluniwyd asesiad llawn o effaith y system drwyddedu forol a sefydlwyd o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, ac y mae ar gael o'r Uned Caniatadau Morol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk).

A full impact assessment of the effect of the marine licensing system established under the Marine and Coastal Access Act 2009 has been prepared and is available from the Marine Consents Unit, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ or at the Welsh Assembly Government website at [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk).

**2011 Rhif 555 (Cy.78)**

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,  
CYMRU**

**TRWYDEDU (MOROL), CYMRU**

**LLYGREDD MOROL, CYMRU**

Rheoliadau Trwyddedu Morol  
(Ffioedd am Geisiadau) (Cymru)  
2011

*Gwnaed* 25 Chwefror 2011

*Gosodwyd gerbron Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru* 1 Mawrth 2011

*Yn dod i rym* 6 Ebrill 2011

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod trwyddedu priodol o dan adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(1), yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 67(2), (3)(b) a 316(1)(b) o'r Ddeddf honno.

**Enwi a chychwyn**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trwyddedu Morol (Ffioedd am Geisiadau) (Cymru) 2011.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2011.

**Cymhwysio**

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran unrhyw gaïs am drwydded forol y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod trwyddedu priodol mewn perthynas ag ef (2).

---

(1) 2009 p.23.

(2) Yn rhinwedd adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p.23), Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol o ran unrhyw beth a wneir wrth ymgymryd â gweithgaredd morol trwyddedadwy mewn perthynas â Chymru a rhanbarth glannau Cymru, ac eithrio gweithgareddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn awdurdod trwyddedu priodol ar eu cyfer yn rhinwedd adrannau 113(4)(a) a (5) o'r Ddeddf honno. *Gweler* adran 322(1) am ddiffiniad o "Welsh inshore region".

**2011 No. 555 (W.78)**

**ENVIRONMENTAL  
PROTECTION, WALES**

**LICENSING (MARINE), WALES**

**MARINE POLLUTION,  
WALES**

The Marine Licensing (Application  
Fees) (Wales) Regulations 2011

*Made* 25 February 2011

*Laid before the National  
Assembly for Wales* 1 March 2011

*Coming into force* 6 April 2011

The Welsh Ministers, as the appropriate licensing authority under section 113(4)(b) of the Marine and Coastal Access Act 2009(1), make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 67(2), (3)(b) and 316(1)(b) of that Act.

**Title and commencement**

1.—(1) The title of these Regulations is the Marine Licensing (Application Fees) (Wales) Regulations 2011.

(2) These Regulations come into force on 6 April 2011.

**Application**

2. These Regulations apply in relation to any application for a marine license in relation to which the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority(2).

---

(1) 2009 c.23.

(2) By virtue of section 113(4)(b) of the Marine and Coastal Access Act 2009 (c.23), the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority as respects anything done in the course of carrying on a licensable marine activity in relation to Wales and the Welsh inshore region, other than activities for which the Secretary of State is the appropriate licensing authority by virtue of sections 113(4)(a) and (5) of that Act. *See* section 322(1) for a definition of the Welsh inshore region.

## Dehongli

### 3.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "ardal amgylcheddol sensitif" ("*environmentally sensitive area*") yw—

- (a) gwarchodfa natur forol o fewn yr ystyr a roddir i "marine nature reserve" yn adran 36 o Ddeddf Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt 1981(1);
- (b) safle Ramsar o fewn yr ystyr a roddir i "Ramsar site" yn adran 37A o Ddeddf Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt 1981(2);
- (c) safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig o fewn yr ystyr a roddir i "site of special scientific interest" yn adran 28 o Ddeddf Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt 1981(3);
- (ch) ardal cadwraeth arbennig o fewn yr ystyr a roddir i "special area of conservation" gan Erthygl 1(1) o Gyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd)(4);
- (d) ardal gwarchodaeth arbennig o fewn yr ystyr a roddir i "special protection area" gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010(5);

ystyr "cais am drwydded forol" ("*application for a marine licence*") yw cais am drwydded i ymgymryd ag un neu ragor o weithgareddau morol trwyddedadwy;

- 
- (1) 1981 (p.69). Diwygiwyd adran 36 gan adran 3 o Ddeddf y Môr Tiriogaethol 1987 (p.49) a pharagraff 6 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno; adran 105 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (p.16) a pharagraff 85 o Ran 1 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno; adran 66(6) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p.19) a pharagraff 65(4) o Atodlen 16 i'r Ddeddf honno; adran 102 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1985 (p.51) ac Atodlen 17 i'r Ddeddf honno; adran 32(5) o Ddeddf 1987 (p.21) ac Atodlen 3 i'r Ddeddf honno. Mae diwygiadau eraill, nad ydynt yn berthnasol at y dibenion hyn. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Weinidogion Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 [O.S. 1999/672] ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw a chan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
  - (2) 1981 (p.69). Mewnosodwyd adran 37A gan adran 77 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37) a diwygiwyd hi gan adran 105 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (p.16) a pharagraff 86 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.
  - (3) 1981 (p.69). Amnewidiwyd adran 28 gan adran 75(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37) a pharagraff 1 o Atodlen 9 i'r Ddeddf honno. Diwygiwyd gan adran 105(1) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (p.16) a pharagraff 79 o Ran 1 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno. Mae diwygiadau eraill, nad ydynt yn berthnasol at y dibenion hyn. Dylid darllen adran 28 yn unol ag adran 27AA. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Weinidogion Cymru gan erthygl 2 o Atodlen 1 i O.S. 1999/672 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
  - (4) O.J. Rhif L 206 22.7.1992 t.7-50.
  - (5) O.S. 2010/490. Mewnosodwyd rheoliad 12A newydd sy'n diffinio "special protection area" gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) 2011 (O.S. 2011/625).

## Interpretation

### 3.—(1) In these Regulations—

"application for a marine licence" ("*cais am drwydded forol*") means an application for a licence to carry on one or more licensable marine activities;

"environmentally sensitive area" ("*ardal amgylcheddol sensitif*") means—

- (a) a marine nature reserve, within the meaning given by section 36 of the Wildlife and Countryside Act 1981(1);
- (b) a Ramsar site, within the meaning given by section 37A of the Wildlife and Countryside Act 1981(2);
- (c) a site of special scientific interest within the meaning given by section 28 of the Wildlife and Countryside Act 1981(3);
- (d) a special area of conservation, within the meaning given by Article 1(l) of Council Directive 92/43/EEC on the conservation of natural habitats and of wild fauna and flora (the Habitats Directive)(4);
- (e) a special protection area, within the meaning given by the Conservation of Habitats and Species Regulations 2010(5);

"environmental sensitivity supplement" ("*tâl atodol sensitifrwydd amgylcheddol*") means a

- 
- (1) 1981 (c.69). Section 36 is amended by section 3 of, and paragraph 6 of Schedule 1 to, the Territorial Sea Act 1987 (c.49); section 105 of, and paragraph 85 of Part 1 of Schedule 11 to, the Natural Environment and Rural Communities Act 2006 (c.16); section 66(6) of, and paragraph 65(4) of Schedule 16 to, the Local Government (Wales) Act 1994 (c.19); section 102 of, and Schedule 17 to, the Local Government Act 1985 (c.51); section 32(5) of, and Schedule 3 to, the Pilotage Act 1987 (c.21). There are other amendments which are not relevant for these purposes. Functions of the Secretary of State in so far as exercisable in relation to Wales are transferred to the Welsh Ministers by article 2 of Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32).
  - (2) 1981 (c.69). Section 37A was inserted by section 77 of the Countryside and Rights of Way Act 2000 (c.37), and amended by section 105 of, and paragraph 86 of Schedule 11 to, the Natural Environment and Rural Communities Act 2006 (c.16).
  - (3) 1981 (c.69). New section 28 substituted by section 75(1) of, and paragraph 1 of Schedule 9 to, the Countryside and Rights of Way Act 2000 (c.37). Amended by section 105(1) of, and paragraph 79 of Part 1 of Schedule 11 to, the Natural Environment and Rural Communities Act 2006 (c.16). There are other amendments which are not relevant for these purposes. Section 28 should be read in accordance with section 27AA. Functions of the Secretary of State in so far as exercisable in relation to Wales are transferred to the Welsh Ministers by article 2 of Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).
  - (4) O.J. No L 206 22.7.1992 p.7-50.
  - (5) S.I.2010/490. New regulation 12A, which defines "special protection area" inserted by the Conservation of Habitats and Species (Amendment) Regulations 2011 (S.I. 2011/625).

ystyr "ffi" ("*fee*") yw'r ffi sy'n daladwy am benderfynu cais am drwydded forol;

ystyr "tâl atodol sensitifrwydd amgylcheddol" ("*environmental sensitivity supplement*") yw ychwanegiad at y ffi sy'n daladwy mewn perthynas â rhai ceisiadau am drwydded forol.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at dabl â rhif yn gyfeiriad at y tabl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn yr Atodlen.

### **Talu ac adennill ffioedd**

4.—(1) Mae'r holl ffioedd yn daladwy i Weinidogion Cymru.

(2) Mae'r holl ffioedd yn daladwy pan ofynnir am y tâl.

(3) Caniateir talu unrhyw ffi drwy ddull electronig.

(4) Bydd Gweinidogion Cymru wedi cael unrhyw ffi pan fydd arian cliriedig yn eu meddiant ar gyfer swm cyfan y ffi honno.

(5) Bydd unrhyw ffi neu ran o ffi na fydd wedi ei thalu yn adenilladwy gan Weinidogion Cymru fel dyled sifil.

### **Prosiectau adeiladu**

5.—(1) Yn achos cais am drwydded forol sy'n ymwneud â phrosiect adeiladu nad yw'n dod o fewn rheoliad 9 (prosiectau ynni adnewyddadwy alltraeth), penderfynir y ffi drwy gyfeirio at y raddfa ffioedd a bennir yn nhabl 1.

(2) Ond, ac eithrio yn achos cais y mae band 1 yn nhabl 1 yn gymwys iddo, mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i baragraff (3).

(3) Os bwriedir ymgymryd ag un neu ragor o'r gweithgareddau morol trwyddedadwy sy'n ffurfio testun y cais y cyfeirir ato ym mharagraff (1) o fewn neu'n agos at ardal amgylcheddol sensitif, bydd tâl atodol sensitifrwydd amgylcheddol yn daladwy.

(4) Pan fo tâl atodol sensitifrwydd amgylcheddol yn daladwy, penderfynir swm y tâl atodol drwy gyfeirio at y symiau a bennir yn nhabl 2.

### **Gwaredu — treillio morol**

6.—(1) Yn achos cais am drwydded forol sy'n ymwneud â gwaredu deunydd a dreillir, nad yw'n dod o fewn paragraff (4), penderfynir y ffi drwy gyfeirio at y graddfeydd ffioedd a bennir yn nhabl 3.

(2) Pan fo'r deunydd a dreillir y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yn tarddu o waith treillio cyfalaf, mae'r raddfa ffioedd yn y drydedd golofn yn nhabl 3 yn gymwys.

supplement to the fee payable in relation to certain applications for a marine licence;

"fee" ("*ffi*") means the fee payable for determining an application for a marine licence.

(2) In these Regulations a reference to a numbered table is a reference to the table bearing that number in the Schedule.

### **Payment and recovery of fees**

4.—(1) All fees are payable to the Welsh Ministers.

(2) All fees are payable on demand.

(3) Payment of any fee may be made by electronic means.

(4) A fee is received by the Welsh Ministers when they are in possession of cleared funds for the whole amount of the fee.

(5) Any unpaid fee or part of any fee is recoverable by the Welsh Ministers as a civil debt.

### **Construction projects**

5.—(1) In the case of an application for a marine licence that relates to a construction project that does not fall within regulation 9 (offshore renewable energy projects), the fee is determined by reference to the scale of fees set out in table 1.

(2) But, except in the case of an application to which band 1 of table 1 applies, paragraph (1) is subject to paragraph (3).

(3) Where one or more of the licensable marine activities which form the subject matter of the application referred to in paragraph (1), is to be carried on in or near an environmentally sensitive area, an environmental sensitivity supplement is payable.

(4) Where an environmental sensitivity supplement is payable, the amount of the supplement is determined by reference to the amounts set out in table 2.

### **Disposal — marine dredging**

6.—(1) In the case of an application for a marine licence that relates to the disposal of dredged material, which does not fall within paragraph (4), the fee is determined by reference to the scales of fees set out in table 3.

(2) Where the dredged material referred to in paragraph (1) comes from capital dredging, the scale of fees in the third column of table 3 applies.

(3) Pan fo'r deunydd a dreillir y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yn tarddu o waith treillio cynnal a chadw, mae'r raddfa ffioedd yn y bedwaredd golofn yn nhabl 3 yn gymwys.

(4) Yn achos cais am drwydded forol sy'n ymwneud â gwaredu deunydd a dreillir at ddefnydd llesiannol, penderfynir y ffi drwy gyfeirio at y graddfeydd ffioedd a bennir yn nhabl 4.

(5) Ond mae paragraff (4) yn ddarostyngedig i baragraff (6).

(6) Os bwriedir ymgymryd ag neu ragor o'r gweithgareddau morol trwyddedadwy sy'n ffurfio testun y cais, y cyfeirir ato ym mharagraff (4), o fewn neu'n agos at ardal amgylcheddol sensitif, bydd tâl atodol sensitifrwydd amgylcheddol yn daladwy.

(7) Pan fo tâl atodol sensitifrwydd amgylcheddol yn daladwy, penderfynir swm y tâl atodol drwy gyfeirio at y symiau a bennir yn nhabl 2, yn ddarostyngedig i'r addasiad ym mharagraff (8).

(8) Pan fo paragraff (7) yn gymwys, rhaid darllen cyfeiriad yn nhabl 2 at gost y prosiect fel pe bai'n gyfeiriad at gost y prosiect y mae'r deunydd a dreillir ac y bwriedir ei waredu yn tarddu ohono.

(9) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "defnydd llesiannol" ("*beneficial use*") yw defnydd sy'n llesiannol i'r amgylchedd;

ystyr "deunydd a dreillir" ("*dredged material*") yw unrhyw sylwedd neu wrthrych sy'n tarddu o dreillio morol.

### Gwaredu — gwastraff pysgod

7. Pan fo cais am drwydded forol yn ymwneud â gwaredu gwastraff pysgod, penderfynir y ffi drwy gyfeirio at dabl 5.

### Echdynnu mwynau drwy dreillio morol

8.—(1) Yn achos cais am drwydded forol sy'n ymwneud ag echdynnu mwynau drwy dreillio morol, penderfynir y ffi drwy gyfeirio at yr ail golofn yn nhabl 6.

(2) Ond mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i baragraff (3).

(3) Pan fo penderfynu cais am drwydded forol o dan baragraff (1) yn cynnwys cynnal ymchwiliad(1), mae'r ffi a bennir yn y drydedd golofn o'r tabl hwnnw yn daladwy yn ychwanegol at y ffi y cyfeirir ati ym mharagraff (1).

(3) Where the dredged material referred to in paragraph (1) comes from maintenance dredging, the scale of fees in the fourth column of table 3 applies.

(4) In the case of an application for a marine licence which relates to the disposal, for beneficial use, of dredged material, the fee is determined by reference to the scale of fees set out in table 4.

(5) But paragraph (4) is subject to paragraph (6).

(6) Where one or more of the licensable marine activities which form the subject matter of the application referred to in paragraph (4), is to take place in or near an environmentally sensitive area, an environmental sensitivity supplement is payable.

(7) Where an environmental sensitivity supplement is payable, the amount of the supplement is determined by reference to the amounts set out in table 2, subject to the modification in paragraph (8).

(8) Where paragraph (7) applies, a reference to project cost in table 2 is to be read as a reference to the cost of the project from which the dredged material to be disposed of, comes.

(9) In this regulation—

"beneficial use" ("*defnydd llesiannol*") means use which is beneficial to the environment;

"dredged material" ("*deunydd a dreillir*") means any substance or object which comes from marine dredging.

### Disposal — fish waste

7. Where an application for a marine licence relates to the disposal of fish waste, the fee is determined by reference to table 5.

### Extraction of minerals by marine dredging

8.—(1) In the case of an application for a marine licence which relates to the extraction of minerals by marine dredging, the fee is determined by reference to the second column of table 6.

(2) But paragraph (1) is subject to paragraph (3).

(3) Where the determination of an application for a marine licence under paragraph (1) involves the holding of an inquiry(1), the fee set out in the third column of that table is payable in addition to the fee referred to in paragraph (1).

(1) Mae adran 70(1) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn darparu y caiff yr awdurdod trwyddedu priodol beri bod ymchwiliad yn cael ei gynnal mewn cysylltiad â phenderfynu cais am drwydded forol.

(1) Section 70(1) of the Marine and Coastal Access Act 2009 provides for the appropriate licensing authority to cause an inquiry to be held in connection with the determination of an application for a marine licence.

### **Prosiectau ynni adnewyddadwy alltraeth**

9. Yn achos cais am drwydded forol sy'n ymwneud â phrosiect ynni adnewyddadwy alltraeth, penderfynir y ffi drwy gyfeirio at y raddfa ffioedd a bennir yn nhabl 7.

### **Piblinellau tanfor ac adeileddau cysylltiedig**

10. Yn achos cais am drwydded forol sy'n ymwneud â phiblinell danfor neu adeiledd cysylltiedig ac yn dod o fewn disgrifiad yn y golofn gyntaf yn nhabl 8, penderfynir y ffi briodol drwy gyfeirio at yr ail golofn o'r tabl hwnnw.

### **Olrheinyddion a lliwurau**

11. Yn achos cais am drwydded forol sy'n ymwneud â dyddodi olrheinyddion neu liwurau, penderfynir y ffi drwy gyfeirio at dabl 9.

### **Angorfeydd a chymhorthion mordwyo**

12. Yn achos cais am drwydded forol sy'n ymwneud ag angorfeydd syml a chymhorthion mordwyo, penderfynir y ffi drwy gyfeirio at dabl 10.

### **Offshore renewable energy projects**

9. In the case of an application for a marine licence which relates to an offshore renewable energy project, the fee is determined by reference to the scale of fees set out in table 7.

### **Submarine pipelines and associated structures**

10. In the case of an application for a marine licence which relates to a submarine pipeline or associated structure, and falls within a description in the first column of table 8, the appropriate fee is determined by reference to the second column of that table.

### **Tracers and dyes**

11. In the case of an application for a marine licence which relates to the deposit of tracers or dyes, the fee is determined by reference to table 9.

### **Moorings and navigation aids**

12. In the case of an application for a marine licence which relates to simple moorings or navigation aids, the fee is determined by reference to table 10.

*Jane Davidson*

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

Minister for Environment, Sustainability and Housing, one of the Welsh Ministers

25 Chwefror 2011

25 February 2011

## YR ATODLEN

Rheoliadau 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11 a 12

**Tabl 1**

**Prosiectau adeiladu**

<b>Band</b>	<b>Cost y prosiect (£)</b>	<b>Ffi (£)</b>
1	0 i 5,499	127
2	5,500 i 9,999	715
3	10,000 i 49,999	1,025
4	50,000 i 1,999,999	2,275
5	2 filiwn i 4,999,999	4,525
6	5 miliwn i 19,999,999	7,191
7	20 miliwn i 49,999,999	12,010
8	50 miliwn ac uwch	38,650

**Tabl 2**

**Tâl atodol sensitifrwydd amgylcheddol**

<b>Band</b>	<b>Cost y prosiect (£)</b>	<b>Tâl atodol (£)</b>
1	5,500 i 9,999	275
2	10,000 i 49,999	575
3	50,000 i 1,999,999	950
4	2 filiwn i 4,999,999	1,350
5	5 miliwn i 19,999,999	1,605
6	20 miliwn i 49,999,999	1,720
7	50 miliwn ac uwch	2,750

**Tabl 3**

**Gwaredu deunydd a dreillir (ac eithrio at ddefnydd llesiannol)**

<b>Band</b>	<b>Maint a waredir (tunelli)</b>	<b>Ffi (£) Cyfalaf</b>	<b>Ffi (£) Cynnal a chadw</b>
1	0 i 9,999	4,500	3,650
2	10,000 i 49,999	9,100	7,225
3	50,000 i 99,999	12,800	9,950
4	100,000 i 499,999	19,850	15,950
5	500,000 i 999,999	28,850	22,050
6	1,000,000 ac uwch	43,500	34,750

**Tabl 4****Gwaredu deunydd a dreillir at ddefnydd llesiannol**

Band	Maint a waredir (tunelli)	Ffi (£)
1	0 i 99,999	715
2	100,000 i 999,999	2,275
3	1,000,000 ac uwch	4,525

**Tabl 5****Gwaredu gwastraff pysgod**

Maint a waredir	Ffi (£)
Unrhyw	2,995

**Tabl 6****Echdynnu mwynau drwy dreillio morol**

Cais	Ffi (£)	Ffi ychwanegol pan gynhelir ymchwiliad (£)
Echdynnu mwynau drwy dreillio morol	27,500	15,000

**Tabl 7****Prosiectau ynni adnewyddadwy alltraeth**

Band	Gallu cynhyrchu (megawatiau)	Ffi (£)
Band 1	0 i 0.99MW	2,000
Band 2	1 i 4.99MW	6,000
Band 3	5 i 99MW	26,222
Band 4	100MW ac uwch	38,650

**Tabl 8****Piblinellau tanfor ac adeileddau cysylltiedig**

Cais	Ffi (£)
Cyn-ysgubo	10,670
Dadlwytho cerrig	2,275
Matresu	2,275
Selio ffynhonnau neu bibellau (pan y'u gadewir)	2,275



**Tabl 9****Dyddodi olrheinyddion a lliwurau**

<b>Cais</b>	<b>Ffi (£)</b>
Dyddodi olrheinyddion	83
Dyddodi lliwurau	83

**Tabl 10****Angorfeydd a chymhorthion mordwyo**

<b>Cais</b>	<b>Ffi (£)</b>
Angorfeydd syml	127
Cymhorthion mordwyo	127

---

© © Hawlfraint y Goron 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

## SCHEDULE

Regulations 5,6,7,8,9,10,11 and 12

**Table 1**

**Construction projects**

<b>Band</b>	<b>Project cost (£)</b>	<b>Fee (£)</b>
1	0 to 5,499	127
2	5,500 to 9,999	715
3	10,000 to 49,999	1,025
4	50,000 to 1,999,999	2,275
5	2 million to 4,999,999	4,525
6	5 million to 19,999,999	7,191
7	20 million to 49,999,999	12,010
8	50 million and above	38,650

**Table 2**

**Environmental sensitivity supplement**

<b>Band</b>	<b>Project cost (£)</b>	<b>Supplement (£)</b>
1	5,500 to 9,999	275
2	10,000 to 49,999	575
3	50,000 to 1,999,999	950
4	2 million to 4,999,999	1,350
5	5 million to 19,999,999	1,605
6	20 million to 49,999,999	1,720
7	50 million and above	2,750

**Table 3**

**Disposal of dredged material (other than for beneficial use)**

<b>Band</b>	<b>Disposal amount (tonnes)</b>	<b>Fee (£) Capital</b>	<b>Fee (£) Maintenance</b>
1	0 to 9,999	4,500	3,650
2	10,000 to 49,999	9,100	7,225
3	50,000 to 99,999	12,800	9,950
4	100,000 to 499,999	19,850	15,950
5	500,000 to 999,999	28,850	22,050
6	1,000,000 and above	43,500	34,750

**Table 4****Disposal of dredged material for beneficial use**

<b>Band</b>	<b>Disposal amount (tonnes)</b>	<b>Fee (£)</b>
1	0 to 99,999	715
2	100,000 to 999,999	2,275
3	1,000,000 and above	4,525

**Table 5****Disposal of fish waste**

<b>Disposal amount</b>	<b>Fee (£)</b>
Any	2,995

**Table 6****Extraction of minerals by marine dredging**

<b>Application</b>	<b>Fee (£)</b>	<b>Additional fee where inquiry to be held (£)</b>
Extraction of minerals by marine dredging	27,500	15,000

**Table 7****Offshore renewable energy projects**

<b>Band</b>	<b>Generating capacity (megawatts)</b>	<b>Fee (£)</b>
Band 1	0 to 0.99MW	2,000
Band 2	1 to 4.99MW	6,000
Band 3	5 to 99MW	26,222
Band 4	100MW and above	38,650

**Table 8****Submarine pipelines and associated structures**

<b>Application</b>	<b>Fee (£)</b>
Pre-sweep	10,670
Rock dumping	2,275
Mattressing	2,275
Well or pipe sealing (on abandonment)	2,275

**Table 9**

**Deposit of tracers and dyes**

<b>Application</b>	<b>Fee (£)</b>
Deposit of tracers	83
Deposit of dyes	83

**Table 10**

**Moorings and navigation aids**

<b>Application</b>	<b>Fee (£)</b>
Simple moorings	127
Navigation aids	127

---

© Crown copyright 2011

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.